Rhif: WG38567

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Band Eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf Adolygiad o'r Farchnad Agored 2019 – Cais am Wybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf 2019
Y cam gweithredu sy'n ofynnol: Ymatebion erbyn 20 Awst 2019

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Pwrpas Adolygiad 2019, a'r ymgynghoriad cysylltiedig, yw cadarnhau pa safleoedd yng Nghymru sydd heb seilwaith band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf sy'n darparu 30 MB yr eiliad o leiaf a /neu wasanaethau Gigabit, neu lle nad oes unrhyw gynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r prosesau hyn yn galluogi cwmnïau telegyfathrebu, a phob rhanddeiliad arall sydd â diddordeb, i ddarparu gwybodaeth am eu cynlluniau ac i roi sylwadau am fapiau safleoedd yn seiliedig ar yr wybodaeth honno – sef a ydynt yn y categori du / llwyd / gwyn / dan adolygiad ynteu allan o gwmpas (gweler yr eirfa i gael diffiniadau).

Y prif reswm dros gynnal Adolygiad 2019 yw deall materion cysylltedd yn iawn yng Nghymru er mwyn i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol allu cefnogi ymyriadau posibl yn y dyfodol.

**Sut i ymateb**

Anfonwch neges e-bost i OMR19@llyw.cymru gan nodi "Ymateb i'r Adolygiad o'r Farchnad Agored" fel y disgrifir yn Adran 5 a 6.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais i gael fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu ieithoedd eraill.**

Wrth lofnodi telerau'r drwydded gysylltiol, bydd gweithredwyr sy'n cofrestru i ymateb yn gallu cael set ddata o safleoedd yng Nghymru.

**Manylion cyswllt**

Os oes gennych chi gwestiynau am broses yr Adolygiad o'r Farchnad Agored sy'n cael Cymorth Gwladwriaethol, cysylltwch â
thîm yr Adolygiad drwy anfon neges e-bost i:

OMR19@llyw.cymru

**Diogelu data**

Sut byddwn ni'n defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth

Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl y byddwn ni hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny'n gymorth i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych chi eisiau i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch chi'n anfon eich ymateb. Byddwn ni'n cuddio’ch manylion wedyn.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn ni wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth sy'n cael ei dal gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb gael ei chyhoeddi. Er hynny, mae’r gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Adolygiad o'r Farchnad Agored gan Lywodraeth Cymru**

## 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yng nghamau olaf y rhaglen lwyddiannus Cyflymu Cymru – lle mae £200m a mwy o arian cyhoeddus wedi cael ei fuddsoddi'n bennaf mewn cyflwyno 'ffeibr i'r cabinet' (FTTC) gan Openreach (gyda pheth 'ffeibr i'r safle' (FTTP)). Fe wnaeth hyn ddarparu band eang cyflym iawn i 733,000 o gartrefi a busnesau yng Nghymru (ar <24 Mbit yr eiliad), a gall 717,000 o'r rheini gyrraedd cyflymderau sydd o leiaf 30Mbit yr eiliad.

Mae'r prosiect sy'n olynu Cyflymu Cymru (sef Rhaglen Olynol Cyflwyno Ffeibr) wedi cael ei gaffael yn ddiweddar. Bydd y prosiect hwn yn talu am gysylltiad ar gyfer 26,000 o safleoedd yn Lot 1 (Gogledd Cymru), Lot 2 (Dwyrain Cymru) a Lot 3 (De Orllewin Cymru a'r Cymoedd). Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd 90% o leiaf o'r safleoedd hyn yn cael eu gwasanaethu gan gysylltiad ffeibr i'r safle (FTTP), gan gynnwys pob safle yn Lot 3. Bydd hyn yn digwydd drwy £22.6m o gymhorthdal cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a chyllid gan yr UE.


Y prif reswm dros gynnal Adolygiad 2019 yw deall materion cysylltedd yn iawn yng Nghymru er mwyn i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol allu cefnogi ymyriadau posibl yn y dyfodol. Amcan yr Adolygiad hwn yw helpu Llywodraeth Cymru i ddeall ble mae buddsoddiad y sector cyhoeddus mewn rhwydweithiau'r genhedlaeth nesaf o fand eang wedi digwydd eisoes yng Nghymru, lle mae'n digwydd ar hyn o bryd, a lle mae bwriad iddo ddigwydd yn y tair blynedd nesaf. Bydd yr wybodaeth yn gymorth i Lywodraeth Cymru benderfynu ble, yn absenoldeb buddsoddiad gan y sector preifat, y dylid canolbwyntio'r ymyriad i gynorthwyo'r canrannau sy'n weddill o safleoedd cymwys.

## 2. Yr Ardal

Mae'r cais hwn am wybodaeth yn ymwneud â Chymru gyfan. Er mwyn i chi ddarparu gwybodaeth, byddwn ni'n gofyn i chi nodi pa ardaloedd o Gymru rydych chi'n darparu ar eu cyfer neu'n bwriadu darparu ar eu cyfer. Ar ôl i ni gael yr wybodaeth hon, ac ar ôl i chi lofnodi'r Cytundeb Trwydded angenrheidiol, byddwn ni'n anfon set ddata o Gyfeirnodau Unigryw Eiddo (UPRN) er mwyn i chi ddarparu ymateb.

Cafwyd data'r safleoedd o AddressBase Premium EPOCH 65 yr Arolwg Ordnans (Chwefror 2019)[1] Mae map o'r ardal berthnasol ar gael isod.

[1] Pan fydd fersiwn diweddarach ar gael, bydd hwnnw'n cymryd lle hwn




## 3. Y cynnydd hyd yma

Cafodd contract Cyflymu Cymru, i ddarparu band eang cyflym iawn i ardal ymyrryd benodol, ei ddyfarnu i BT ar 19 Gorffennaf 2012 gyda £205m o arian cyhoeddus a Chymorth Gwladwriaethol. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 3 Mehefin a 3 Gorffennaf 2014, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymestyn y contract â BT ar gyfer ardal ymyrryd benodol arall gyda £19.4m o arian cyhoeddus a Chymorth Gwladwriaethol.

Roedd Cyflymu Cymru yn cwmpasu Ardal Ymyrryd a oedd yn cynnwys rhyw 767,000 o safleoedd a gafodd eu hasesu fel rhai a oedd y tu allan i gwmpas buddsoddiad masnachol arferol Mynediad y Genhedlaeth Nesaf drwy broses adolygiadau o'r farchnad agored. Roedd y cyllid yn ceisio darparu 90% o leiaf o ddarpariaeth band eang cyflym iawn i’r Ardal Ymyrryd, a hynny yn unol â thargedau Llywodraeth y DU.

Cafodd proses olynol i Gyflymu Cymru ei chaffael yn ddiweddar, a bydd y Rhaglen Olynol i Gyflwyno Ffeibr yn ariannu cysyllted i 26,000 o safleoedd eraill.

## 4. Pwrpas yr Adolygiad o'r Farchnad Agored

Er mwyn deall cysylltedd yn llwyr yng Nghymru – fel y gall Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol gefnogi ymyriadau posibl yn y dyfodol – rydym ni nawr yn dechrau ar Adolygiad o'r Farchnad Agored 2019 i sefydlu pa ddarpariaeth fasnachol sy'n bodoli ar hyn o bryd ac sy'n arfaethedig (yn y tair blynedd nesaf) ar gyfer gwasanaethau band eang yng Nghymru gan yr holl ddarparwyr cyfredol a darparwyr sy'n bwriadu darparu seilwaith band eang y Genhedlaeth Nesaf a Gigabit.

Bwriad Adolygiad 2019 yw rhagflaenu dogfen ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'r DU yn dilyn proses arferion gorau sy'n hybu'r defnydd o Adolygiad ac Ymgynghoriad Cyhoeddus. Mae'r Ymgynghoriad Cyhoeddus yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n gyson â gofynion y Canllawiau Band Eang.[2] Rydym yn ystyried ei bod yn hanfodol ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar, ac mae hynny'n rhan bwysig iawn o'n gwaith ymchwil cynnar o'r farchnad. Bydd canlyniadau Adolygiad 2019 yn gymorth i ni ddeall y seilwaith band eang (Mynediad y Genhedlaeth Nesaf a Gigabit) sydd eisoes yn bodoli a lle mae cynlluniau i fuddsoddi mewn seilwaith o'r fath yn y tair blynedd nesaf.

Ar ôl i ni ddiffinio'r Ardaloedd Ymyrryd o Adolygiad 2019, byddwn ni'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus gyda Cymorth Gwladwriaethol ar yr Ardaloedd Ymyrryd arfaethedig.

## 5. Mae angen i chi ymateb

Rydym yn anfon Cais am Wybodaeth ar gyfer Adolygiad 2019 at bob darparwr seilwaith band eang a'r rhyngrwyd yng Nghymru. Rydym hefyd yn cyhoeddi'r ddogfen hon ar ein gwefan.

Mae angen i ni gael ymatebion i'r cwestiynau sydd yn yr Atodiad erbyn 20 Awst. Wrth ymateb, byddem ni'n ddiolchgar petaech chi'n cadarnhau enw a chyfeiriad eich sefydliad, yn ogystal ag enw, swydd a manylion cyswllt y person sy'n ymateb ar ran y sefydliad.

## 6. Darparu gwybodaeth

Bydd Templed Ymateb i'r Adolygiad yn cael ei ryddhau unwaith y bydd Trwydded Defnyddiwr y Sector Cyhoeddus, sydd ar gael ym Mhorthol Ymgynghoriad Adolygiad 2019 Llywodraeth Cymru, wedi cael ei llofnodi ac wedi cael ei dychwelyd i OMR19@llyw.cymru.

Cyn i ni ryddhau'r templed, dywedwch pa ardaloedd o Gymru rydych chi'n darparu ar eu cyfer neu'n bwriadu darparu ar eu cyfer – drwy nodi'r Ardaloedd Awdurdodau Lleol perthnasol. Yna, byddwn ni'n anfon

[2] Canllawiau Cymunedol ar gyfer defnyddio rheolau cymorth gwladwriaethol mewn perthynas â defnyddio rhwydweithiau band eang
http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:C:2013:025:0001:0026:EN:PDF

fersiwn o Dempled Ymateb i'r Ymgynghoriad, wedi'i theilwra i'r ardaloedd penodol hynny.

Sylwch y bydd y data a roddwch yn eich ymateb yn cael i drin fel data masnachol cyfrinachol i Lywodraeth Cymru, er efallai y bydd angen rhannu ambell ran / pob rhan o ddata eich ymateb gyda'n hymgynghorwyr proffesiynol a/neu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon/BDUK, Cangen Cymorth Gwladwriaethol yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a'r Comisiwn Ewropeaidd wrth geisio cael Cymorth Gwladwriaethol. Dylid nodi hefyd bod Cymorth Gwladwriaethol yn mynnu ein bod yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio setiau data Cymorth Gwladwriaethol i ddiffinio ardaloedd gwyn, llwyd, du, dan adolygiad ac allan o gwmpas ar gyfer band eang sylfaenol a band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf. Bydd y setiau data a'r mapiau yn cael eu cyhoeddi fel rhan o broses yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, a byddant yn cael eu defnyddio i ddiffinio'r ardal ymyrryd. Fodd bynnag, sylwch y bydd y setiau data a'r mapiau a gyhoeddwyd yn cael eu cynnwys drwy ddefnyddio data gan yr holl weithredwyr perthnasol ac ni fyddant yn cael eu priodoli'n uniongyrchol i un ffynhonnell. Dylid nodi y gallai gwybodaeth a gafwyd am wasanaethau Gigabit gael ei defnyddio fel sail i strategaeth yn y dyfodol, yn hytrach na chael ei defnyddio i siapio ardal ymyrryd ar gyfer gwasanaethau Gigabit.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw beth o'r uchod, cysylltwch â OMR19@llyw.cymru.

## 7. Cyfeiriad Porthol Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch yr Adolygiad o'r Farchnad Agored

https://llyw.cymru/mynediad-fand-eang-y-genhedlaeth-nesaf-adolygiad-or-farchnad-agored-2019

## Atodiad

**1. Rhowch fanylion a thystiolaeth ategol am unrhyw fuddsoddiad cyfredol neu arfaethedig mewn seilwaith band eang (band eang sylfaenol, band eang mynediad y genhedlaeth nesaf a band eang Gigabit) yng Nghymru. O ran buddsoddiad arfaethedig, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf (hyd at Awst 2022). Heblaw cwblhau templed y daenlen (neu yn lle'r daenlen os nad ydych chi'n gallu darparu'r wybodaeth yn y ffurflen angenrheidiol), dylai unrhyw wybodaeth a roddwch i ymateb i'r cais hwn gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini:**

- Manylion y safleoedd ar gyfer band eang sylfaenol[3], band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf a Gigabit, yn dangos y ddarpariaeth bresennol a data (a mapiau) ar wahân yn dangos y buddsoddiad arfaethedig yn y rhwydweithiau seilwaith band eang sylfaenol, band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf a Gigabit am y tair blynedd nesaf o leiaf;

- Manylion y safleoedd a basiwyd neu a ddarparwyd ar eu cyfer, gan gynnwys gwybodaeth am nifer y safleoedd a basiwyd (yn achos rhwydwaith sefydlog) neu a ddarparwyd ar eu cyfer, ac sy'n gallu cael gwasanaethau (yn achos rhwydwaith di-wifr/lloeren);

- Manylion y dechnoleg, a phan fo'r rhain yn honni bod yn Fynediad y Genhedlaeth Nesaf, dangos sut maent yn cwrdd â'r safonau isaf fel y nodir yng Nghanllawiau Technoleg BDUK[4]. O ran gwasanaethau Gigabit, gwybodaeth gymharol yn dangos cyflawni ar gyflymderau Gigabit.

- Disgrifiad o'r gwasanaethau/nwyddau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ac ar wahân i'r rhai sy'n cael eu cynnig yn y tair blynedd nesaf.

- Tariffau gosod a rhentu ar gyfer gwasanaethau/nwyddau sy'n dangos yn glir a ydynt yn cynnwys TAW ai peidio;

- Cyflymderau uwchlwytho a lawrlwytho sy'n cael eu profi gan y defnyddwyr fel arfer;

- Dangosyddion priodol ar gyfer ansawdd y gwasanaeth, e.e. cymhareb gystadlu neu ddyraniad lled band ar gyfer y defnyddiwr;

---

[3] Diffiniwyd ar gyfer yr Adolygiad o'r Farchnad Agored fel 10Mb yr eiliad (lawrlwytho) – yn unol â chyflymderau'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang sylfaenol a fydd yn dod i rym ym mis Mawrth 2020

[4] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/536767/2016_NBS_-State_Aid_Guidance_-NGA_Technology.pdf
Mae enghraifft wedi'i gweithio ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/2016-nbs-tech-guidelines

- Tystiolaeth i gefnogi honiad o ddarpariaeth wirioneddol neu arfaethedig, gan gynnwys achosion busnes a thystiolaeth o gyllid sydd ar gael i allu gwireddu cynlluniau.

- Manylion ac amseriad y gwaith o gyflwyno buddsoddiad yn y dyfodol;

- Cadarnhad gan rhywun sydd ag awdurdod i lofnodi yn dweud bod yr holl wybodaeth yn gywir.

Rhowch dystiolaeth ategol fel y gwelwch orau, e.e. gwefannau cyhoeddus.

Diolch yn fawr,

**Llywodraeth Cymru**

## Geirfa

| Cyfnod | Diffiniad |
|---|---|
| **Seilwaith band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf** | Y strwythurau ffisegol sydd eu hangen i weithredu gwasanaethau band eang cyflym iawn sy'n darparu cyflymderau sydd o leiaf 30 MB yr eiliad. |
| **Adolygiad o'r Farchnad Agored** | Cynhaliwyd ymareriad gyda'r farchnad i bennu faint o ddisgwyl sydd i'r sector preifat ddefnyddio band eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf, er mwyn gwybod pa ardaloedd sydd heb unrhyw seilwaith band eang cymwys neu lle nad oes cynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf. |
| **Safleoedd gwyn** | Safleoedd sydd heb fynediad at rwydwaith gymwys Mynediad y Genhedlaeth Nesaf, neu lle nad oes cynlluniau i ddarparu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf. |
| **Safleoedd llwyd** | Safleoedd lle mai dim ond un rhwydwaith Mynediad y Genhedlaeth Nesaf sydd ar gael neu lle mai dim ond un rhwydwaith sydd i fod i gael ei leoli yn y tair blynedd nesaf. |
| **Safleoedd du** | Safleoedd lle mae o leiaf ddau rwydwaith Mynediad y Genhedlaeth Nesaf yn gymwys gan wahanol weithredwyr, neu sydd i fod i gael eu lleoli yn y tair blynedd nesaf. |
| **Safleoedd allan o'r cwmpas** | Safleoedd sydd eisoes â threfniadau cyllid cyhoeddus ac sydd felly wedi'u heithio o ymyrriad gan y sector cyhoeddus yn y dyfodol. |
| **Safleoedd dan adolygiad** | Safleoedd lle mae cyflenwyr wedi dweud bod ganddynt rhwydwaith cymwys Mynediad y Genhedlaeth Nesaf neu maent yn bwriadu cael un yn y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, naill ai nad yw'r diweddariad wedi cael ei gwblhau, neu dywedwyd bod y rhwydwaith 'mewn perygl' o allu darparu gwasanaethau o'r fath i safleoedd. Felly, bydd y safleoedd hyn yn agored i gael eu monitro'n barhaus. Os na fydd y cynlluniau'n cael eu gwireddu a/neu os yw'r rhwydwaith yn rhoi'r gorau i weithredu, diffinir mai gwyn fydd y safleoedd a gallent fod yn rhan o'r ardal ymyrryd. |
| **Safleoedd wedi'u hidlo** | Fe wnaeth set ddata yr ymgynghoriad dynnu categorïau safleoedd y credid eu bod yn annhebygol o fod yn strwythurau sy'n gymwys ar gyfer gwasanaeth band eang cyflym iawn – er enghraifft: tyrbinau gwynt, cysgodfannau bws, a dyfrbontydd. Fodd bynnag, roedd y safleoedd wedi'u cynnwys o hyd yn y map rhyngweithiol ar gyfer yr ymgynghoriad fel 'safleoedd wedi'u hidlo'. |
| **Cyfeirnod Unigryw'r Eiddo** | Cod adnabod unigryw ar gyfer pob cyfeiriad ym Mhrydain. Mae'n darparu cod adnabod cynhwysfawr, cyflawn a chyson drwy gydol oes |

| | |
|---|---|
| | eiddo – o'r caniatâd cynllunio hyd at ei ddymchwel. |
| **Band eang sylfaenol** | Ar hyn o bryd, y diffiniad o Fand Eang Sylfaenol yw cyflymder lawrlwytho sy'n 2MB yr eiliad. Ond o 20 Mawrth 2020 ymlaen, bydd Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol newydd mewn grym, sef 10MB+ yr eiliad i lawrlwytho (1MB yr eiliad i uwchlwytho). Gan mai edrych tua'r dyfodol y mae'r ymarferiad hwn, dylid cymryd mai ystyr Band Eang yn yr Adolygiad o'r Farchnad Agored yw 109MB+ yr eiliad. |
| **Ffeibr i'r cabinet** | (FTTC). Dyma'r math o seilwaith band eang cyflym iawn sydd ar gael yn fwyaf eang yn y DU. Mae'n defnyddio'r rhwydwaith ffôn copr cyfredol. Mae ffeibr yn cael ei osod mewn cabinet gerllaw, ac mae'n cysylltu'r pellter i'r safle gyda'r llinell gopr sy'n bodoli eisoes. Gall cysylltiadau FTTC ddelio â chyflymderau lawrlwytho hyd at 80 megabit yr eiliad, ond bydd y cyflymder hwn yn lleihau po fwyaf pell yw'r safle o'r cabinet |
| **Ffeibr i'r Safle** | (FTTP). Dyma lle mae'r ffeibr optig yn rhedeg yn uniongyrchol i bob safle er mwyn cael cysylltiad â'r rhyngrwyd mewn ffordd sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r cyflymderau sy'n cael eu cynnig dros yr FTTP yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol – fel arfer mae hyd at 1 gigabit yr eiliad (1000MB yr eiliad). Cynigir cyflymderau uwchlwytho cyflym iawn hefyd. Mae hynny'n arbennig o ddefnyddiol i fusnesau neu i bobl sy'n gweithio o gartref. |
| **Band eang Gigabit** | Band eang Gigabit yw band eang sy'n gallu darparu cyflymderau sy'n 1GB yr eiliad a mwy. |